

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2024 Rhif 613 (Cy. 87)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg
(Categoriâu Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau
Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024

Gwnaed - - - - 8 Mai 2024
Yn dod i rym - - 10 Mai 2024

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 5(1), 12(1)(1), 13(1)(2), 15(1)(3), 46 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(4) a pharagraff 2 o Atodlen 2 iddi, ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 47(2)(a), (c) ac (e) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(5).

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categoriâu Cofrestru Ychwanegol a Chymwysterau Athrawon Addysg Bellach) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Mai 2024.

- (1) Caniateir arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 12(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 er mwyn gwneud gorchymyn yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).
- (2) Caniateir arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 13(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 er mwyn gwneud gorchymyn yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.
- (3) Caniateir arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 15(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 er mwyn gwneud gorchymyn yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.
- (4) 2014 dccc 5.
- (5) Mae'r cyfeiriad yn adran 47(2) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “addysg bellach” (“*further education*”) yw addysg (heblaw addysg uwch) sy'n addas i ofynion personau sydd dros yr oedran ysgol gorfodol;

ystyr “addysg uwch” (“*higher education*”) yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(6);

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr “Comisiwn” (“*Commission*”) yw'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(7);

ystyr “Cyngor” (“*Council*”) yw Cyngor y Gweithlu Addysg, sef y corff corfforedig a ailenwyd gan adran 2 o Ddeddf 2014;

ystyr “darparwr dysgu oedolion cymunedol” (“*community-based adult learning provider*”) yw darparwr (heblaw ysgol, sefydliad addysg bellach neu sefydliad addysg uwch) addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer oedolion sy'n seiliedig yn y gymuned ac sydd wedi ei ariannu neu ei ddarparu fel arall gan awdurdod lleol, y Comisiwn neu Weinidogion Cymru;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996(8);

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Addysg (Cymru) 2014(9);

ystyr “oedolyn” (“*adult*”) yw person sy'n 18 oed neu drosodd;

ystyr “pennaeth neu uwch-arweinydd mewn addysg bellach” (“*principal or senior leader in further education*”) yw person sy'n ymgymryd â rôl uwch-arweinydd o ran rheoli addysgu a dysgu mewn neu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru;

ystyr “Rheoliadau 2015” (“*the 2015 Regulations*”) yw Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015(10);

ystyr “Rheoliadau 2017” (“*the 2017 Regulations*”) yw Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017(11);

ystyr “Rheoliadau 2023” (“*the 2023 Regulations*”) yw Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol a Gweithredu Cytundebau Cydnabod Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio etc.) 2023(12);

mae i “sefydliad addysg bellach” yr ystyr a roddir i “*further education institution*” yn adran 140 o Ddeddf Addysg 2002(13);

ystyr “sefydliad addysg uwch” (“*higher education institution*”) yw sefydliad sy'n dod o fewn adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(14);

ystyr “ymarferydd dysgu oedolion” (“*adult learning practitioner*”) yw person sy'n darparu addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer neu ar ran darparwr dysgu oedolion cymunedol;

ystyr “ysgol” (“*school*”) yw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru neu ysgol arbennig yng Nghymru nas cynhelir felly.

(6) p. 40.

(7) dsc 1.

(8) p. 18.

(9) dccc 5.

(10) O.S. 2015/140 (Cy. 8), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/6 (Cy. 4), O.S. 2019/444 (Cy. 107) ac O.S. 2023/551 (Cy. 86).

(11) O.S. 2017/92 (Cy. 34), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/551 (Cy. 86).

(12) O.S. 2023/1294 (Cy. 230).

(13) p. 34.

(14) p. 13.

RHAN 2

Penaethiaid ac uwch-arweinwyr mewn addysg

Y gofyniad i fod yn gofrestredig: penaethiaid ac uwch-arweinwyr mewn addysg bellach

3. Ni chaiff person ymgymryd â rôl uwch-arweinydd o ran rheoli addysgu a dysgu mewn nac ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru oni bai bod y person wedi ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan y Cyngor) yng nghategori pennaeth neu uwch-arweinydd mewn addysg bellach.

RHAN 3

Ymarferwyr dysgu oedolion

Y gofynion er mwyn gweithio fel ymarferydd dysgu oedolion

4.—(1) Ni chaiff person weithio fel ymarferydd dysgu oedolion ar gyfer nac ar ran unrhyw ddarparwr dysgu oedolion cymunedol oni bai—

- (a) bod yr amodau ym mharagraffau (2) a (3) wedi eu bodloni, neu
- (b) bod paragraff (4) yn gymwys.

(2) Yr amod cyntaf yw bod rhaid i'r person fod wedi ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan y Cyngor) yn y categori ymarferydd dysgu oedolion.

(3) Yr ail amod yw bod rhaid—

- (a) bod gan y person o leiaf un o'r cymwysterau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen, neu
- (b) i'r person ddiwallu'r gofyniad arall a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen.

(4) Caiff person sy'n cydymffurfio â'r amod cyntaf ond nad yw'n cydymffurfio â'r ail amod, os yw'n gweithio tuag at gymhwyster a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen, weithio fel ymarferydd dysgu oedolion am gyfnod nad yw'n hwy na—

- (a) 3 blynedd o'r dyddiad y dechreuodd weithio tuag at y cymhwyster pan fo'r person wedi ei gyflogi'n llawnamser, neu
- (b) 5 mlynedd o'r dyddiad y dechreuodd weithio tuag at y cymhwyster pan fo'r person wedi ei gyflogi'n rhan-amser.

(5) Wrth gyfrifo'r cyfnodau a bennir ym mharagraff 4(a) a (b), mae unrhyw gyfnod o absenoldeb o'r gwaith i gael ei ddiystyru os yw'n codi—

- (a) wrth i berson arfer—
 - (i) ei hawl i absenoldeb mamolaeth a roddir gan adran 71 neu 73 o Ddeddf 1996(15) neu gontract cyflogaeth a phan fydd gan y person hwnnw yr hawl i ddychwelyd i'r gwaith yn rhinwedd y naill neu'r llall o'r adrannau hyn neu gontract cyflogaeth;
 - (ii) ei hawl i absenoldeb rhiant a roddir gan adran 76 o Ddeddf 1996(16);

(15) Amnewidiwyd adrannau 71 a 73 gan Ran 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p. 29). Diwygiwyd adran 71 gan baragraff 31, ac adran 73 gan baragraff 32, o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p. 18) a diwygiwyd y ddwy adran gan adran 17 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p. 22). Diwygiwyd adran 71 ymhellach gan adran 118(1), (2)(a) a (b) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6). Diwygiwyd adran 73 ymhellach gan adran 118(1), (3)(a), (b) ac (c) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

(16) Amnewidiwyd adran 76 gan Ran 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p. 29).

- (iii) ei hawl i absenoldeb tadolaeth a roddir gan adran 80A neu 80B o Ddeddf 1996(17);
 - (iv) ei hawl i absenoldeb mabwysiadu a roddir gan adran 75A neu 75B o Ddeddf 1996(18);
 - (v) ei hawl i absenoldeb rhiant a rennir a roddir gan adran 75E neu 75G o Ddeddf 1996(19); neu
 - (vi) ei hawl i absenoldeb profedigaeth rhiant a roddir gan adran 80EA o Ddeddf 1996(20); neu
- (b) oherwydd beichiogrwydd.

Y Cyngor i adolygu'r rhestr o gymwysterau ymarferwyr dysgu oedolion

5. Rhaid i'r Cyngor adolygu'r rhestr o gymwysterau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen ac adrodd i Weinidogion Cymru yn flynyddol ar unrhyw ddiwygiadau y mae'n ystyried y gallant fod yn ofynnol.

RHAN 4

Diwygiadau i Ddeddf 2014

Diwygiadau i Atodlen 2 i Ddeddf 2014

6.—(1) Mae Atodlen 2 (categoriâu cofrestru) i Ddeddf 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl 1 ym mharagraff 1, ar ôl y cofnod ar gyfer “Gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol” mewnosoder—

<i>Categori</i>	<i>Disgrifiad</i>
“Ymarferydd dysgu oedolion	Person sy'n darparu (neu sy'n dymuno darparu) addysg bellach a hyfforddiant i oedolion ar gyfer neu ar ran darparwr dysgu oedolion cymunedol.
Pennaeth neu uwch-arweinydd mewn addysg bellach	Person sy'n ymgymryd (neu sy'n dymuno ymgymryd) â rôl uwch-arweinydd o ran rheoli addysgu a dysgu mewn neu ar gyfer sefydliad addysg bellach yng Nghymru.”

(3) Ym mharagraff 3, yn y lleoedd priodol, mewnosoder—

-
- (17) Mewnosodwyd adrannau 80A a 80B gan adran 1 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p. 22). Diwygiwyd adran 80A ymhellach gan adran 118(1) a (6) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, a pharagraffau 29 a 32 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adran 80B ymhellach gan adrannau 118(1) a (7), 121(2)(a) a (b), 122(4) a 128(2)(b) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 a pharagraffau 29 a 33 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno a chan reoliad 147(a), (b) ac (c) o Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016/413.
- (18) Mewnosodwyd adrannau 75A a 75B gan adran 3 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p. 22). Diwygiwyd adran 75A gan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p. 18) a chan adrannau 118(1), 4(a), (b) ac (c) a 121(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, gan reoliad 145 o Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016/413 a chan baragraff 11(10) o Orchymyn Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (Rhwymediol) 2018/1413. Diwygiwyd adran 75B ymhellach gan baragraff 34 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p. 18), gan adran 118(1), (5)(a), (b) ac (c) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 a chan baragraff 11(11) o Orchymyn Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (Rhwymediol) 2018/1413.
- (19) Mewnosodwyd adrannau 75E a 75G yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (p. 18) gan adran 117(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6). Diwygiwyd adran 75G gan reoliad 146(a) a (b) o O.S. 2016/413 (Cy. 131).
- (20) Mewnosodwyd adran 80EA gan baragraff 2 o Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 (p. 24).

“ystyr “addysg bellach” (“*further education*”) yw addysg (heblaw addysg uwch) sy’n addas i ofynion personau dros yr oedran ysgol gorfodol;”;

“ystyr “addysg uwch” (“*higher education*”) yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(21);”;

“ystyr “darparwr dysgu oedolion cymunedol” (“*community-based adult learning provider*”) yw darparwr (heblaw ysgol, sefydliad addysg bellach neu sefydliad addysg uwch) addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer oedolion sy’n seiliedig yn y gymuned ac sydd wedi ei ariannu neu ei ddarparu fel arall gan awdurdod lleol, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil(22) neu Weinidogion Cymru;”;

“ystyr “oedolyn” (“*adult*”) yw person sy’n 18 oed neu drosodd;”;

“ystyr “sefydliad addysg uwch” (“*higher education institution*”) yw sefydliad sy’n dod o fewn adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(23);”.

Diwygiadau i Atodlen 4 i Ddeddf 2014

7.—(1) Mae Atodlen 4 (mynegai o eiriau ac ymadroddion wedi eu diffinio) i Ddeddf 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl 3, yn y lleoedd priodol, mewnosoder—

<i>Gair neu ymadrodd</i>	<i>Gair neu ymadrodd yn y Saesneg</i>	<i>Darpariaeth berthnasol</i>
“Addysg bellach	Further education	Atodlen 2”
“Addysg uwch	Higher education	Atodlen 2”
“Darparwr dysgu oedolion cymunedol	Community-based adult learning provider	Atodlen 2”
“Oedolyn	Adult	Atodlen 2”
“Pennaeth neu uwch-arweinydd mewn addysg bellach	Principal or senior leader in further education	Atodlen 2”
“Sefydliad addysg uwch	Higher education institution	Atodlen 2”
“Ymarferydd dysgu oedolion	Adult learning practitioner	Atodlen 2”

RHAN 5

Diwygiadau i Reoliadau 2015

Diwygiadau i Reoliadau 2015

8. Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio yn unol ag erthyglau 9 i 12.

9. Yn lle’r pennawd i Ran 4 (Y gofyniad i fod yn gofrestredig: athrawon addysg bellach), rhodder “Y gofynion sy’n ymwneud ag athrawon addysg bellach”.

10.—(1) Mae rheoliad 19 o Reoliadau 2015 wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) i (6).

(21) p. 40.

(22) Fe’i sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (dsc 1).

(23) p. 31.

- (2) Yn lle'r pennawd, rhodder “Y gofynion sy'n ymwneud ag athrawon addysg bellach”.
- (3) Yn lle paragraff (1), rhodder—
- “(1A) Ni chaiff person ddarparu addysg mewn nac ar gyfer sefydliad addysg bellach oni bai—
- (a) bod yr amodau ym mharagraffau (1B) ac (1C) wedi eu bodloni, neu
- (b) bod paragraff (1D) yn gymwys.
- (1B) Yr amod cyntaf yw bod rhaid i'r person fod wedi ei gofrestru o dan adran 9 o Ddeddf 2014 (cofrestr a gynhelir gan y Cyngor) yn y categori athro neu athrawes addysg bellach.
- (1C) Yr ail amod yw bod rhaid—
- (a) bod gan y person o leiaf un o'r cymwysterau penodedig, neu
- (b) i'r person ddiwallu'r gofyniad arall a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 6.
- (1D) Caiff person sy'n cydymffurfio â'r amod cyntaf ond nad yw'n cydymffurfio â'r ail amod, os yw'n gweithio tuag at gymhwyster penodedig, weithio fel athro neu athrawes addysg bellach am gyfnod nad yw'n hwy na—
- (a) 3 blynedd o'r dyddiad y dechreuodd weithio tuag at y cymhwyster pan fo'r person wedi ei gyflogi'n llawnamser, neu
- (b) 5 mlynedd o'r dyddiad y dechreuodd weithio tuag at y cymhwyster pan fo'r person wedi ei gyflogi'n rhan-amser.”
- (1E) Wrth gyfrifo'r cyfnodau a bennir ym mharagraff 1D(a) a (b), mae unrhyw gyfnod o absenoldeb o'r gwaith i gael ei ddiystyru os yw'n codi—
- (a) wrth i berson arfer—
- (i) ei hawl i absenoldeb mamolaeth a roddir gan adran 71 neu 73 o Ddeddf 1996(24) neu gontract cyflogaeth a phan fydd gan y person hwnnw yr hawl i ddychwelyd i'r gwaith yn rhinwedd y naill neu'r llall o'r adrannau hyn neu gontract cyflogaeth;
- (ii) ei hawl i absenoldeb rhiant a roddir gan adran 76 o Ddeddf 1996(25);
- (iii) ei hawl i absenoldeb tadolaeth a roddir gan adran 80A neu 80B o Ddeddf 1996(26);
- (iv) ei hawl i absenoldeb mabwysiadu a roddir gan adran 75A neu 75B o Ddeddf 1996(27);

-
- (24) Amnewidiwyd adrannau 71 a 73 gan Ran 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p. 29). Diwygiwyd adran 71 gan baragraff 31, ac adran 73 gan baragraff 32, o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p. 18) a diwygiwyd y ddwy adran gan adran 17 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p. 22). Diwygiwyd adran 71 ymhellach gan adran 118(1), (2)(a) a (b) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6). Diwygiwyd adran 73 ymhellach gan adran 118(1), (3)(a), (b) ac (c) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.
- (25) Amnewidiwyd adran 76 gan Ran 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (p. 29).
- (26) Mewnosodwyd adrannau 80A a 80B gan adran 1 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p. 22). Diwygiwyd adran 80A ymhellach gan adran 118(1) a (6) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, a pharagraffau 29 a 32 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adran 80B ymhellach gan adrannau 118(1) a (7), 121(2)(a) a (b), 122(4) a 128(2)(b) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 a pharagraffau 29 a 33 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno a chan reoliad 147(a), (b) ac (c) o Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016/413.
- (27) Mewnosodwyd adrannau 75A a 75B gan adran 3 o Ddeddf Cyflogaeth 2002 (p. 22). Diwygiwyd adran 75A gan baragraff 33 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p. 18) a chan adrannau 118(1), 4(a), (b) ac (c) a 121(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, gan reoliad 145 o Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016/413 a chan baragraff 11(10) o Orchymyn Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (Rhwymediol) 2018/1413. Diwygiwyd adran 75B ymhellach gan baragraff 34 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwaith a Theuluoedd 2006 (p. 18), gan adran 118(1), (5)(a), (b) ac (c) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 a chan baragraff 11(11) o Orchymyn Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 2008 (Rhwymediol) 2018/1413.

- (v) ei hawl i absenoldeb rhiant a rennir a roddir gan adran 75E neu 75G o Ddeddf 1996(28); neu
- (vi) ei hawl i absenoldeb profedigaeth rhiant a roddir gan adran 80EA o Ddeddf 1996(29); neu
- (b) oherwydd beichiogrwydd.”
- (4) Ym mharagraff (2)—
- (a) ar ddiwedd is-baragraff (c) hepgorer “neu”;
- (b) ar ôl is-baragraff (d) mewnosoder—
- “(e) yn gweithredu fel gwirfoddolwr; neu
- (f) yn darparu ar sail dros dro neu achlysurol hyfforddiant mewn perthynas â phroffesiwn a phan fo'r person yn dal y cymwysterau neu'r profiad sy'n angenrheidiol er mwyn ymarfer y proffesiwn hwnnw.”
- (5) Ar ôl paragraff (2), mewnosoder yr hyn a ganlyn—
- “(3) At ddibenion y rheoliad hwn a rheoliad 19ZA, ystyr cymhwyster penodedig yw cymhwyster a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 6.”
11. Ar ôl rheoliad 19 o Reoliadau 2015, mewnosoder—

“Y Cyngor i adolygu rhestr o gymwysterau penodedig

19ZA. Rhaid i'r Cyngor adolygu'r rhestr o gymwysterau penodedig ac adrodd i Weinidogion Cymru yn flynyddol ar unrhyw ddiwygiadau y mae'n ystyried y gallant fod yn ofynnol.”

12. Ar ôl Atodlen 5 i Reoliadau 2015 mewnosoder—

“ATODLEN 6

Rheoliad 19

Athrawon addysg bellach

RHAN 1

Cymwysterau

1. Tabl 1: Cymru

<i>Cymwysterau o ran Cymru</i>	<i>Corff dyfarnu</i>
Addysg (Cymru) (MA)	Coleg Prifysgol Dewi Sant
	Coleg Prifysgol y Drindod
	Prifysgol Abertawe
	Prifysgol Aberystwyth

(28) Mewnosodwyd adrannau 75E a 75G yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (p. 18) gan adran 117(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6). Diwygiwyd adran 75G gan reoliad 146(a) a (b) o O.S. 2016/413 (Cy. 131).

(29) Mewnosodwyd adran 80EA gan baragraff 2 o Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018 (p. 24).

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

<i>Cymwysterau o ran Cymru</i>	<i>Corff dyfarnu</i>
	Prifysgol Cymru, Abertawe
	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
	Prifysgol Cymru, Casnewydd
	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
	Prifysgol De Cymru
	Prifysgol Fetropolitan Abertawe
	Prifysgol Morgannwg
Addysg (Doethur mewn Addysg)	Prifysgol Bangor
	Prifysgol Cymru, Bangor
Addysg (MA)	Coleg Prifysgol Dewi Sant
	Y Brifysgol Agored
	Prifysgol Abertawe
	Prifysgol Bangor
	Prifysgol Cymru, Abertawe
	Prifysgol Cymru, Bangor
	Prifysgol Cymru, Casnewydd
	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
	Prifysgol Fetropolitan Abertawe
	Prifysgol Glyndŵr
	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
	Prifysgol Morgannwg
	Prifysgol Wrecsam
Addysg (MPhil)	Prifysgol Aberystwyth
	Prifysgol Bangor
	Prifysgol Cymru, Aberystwyth

Cymwysterau o ran Cymru	Corff dyfarnu
Addysg (PhD)	Prifysgol Cymru, Bangor Prifysgol Abertawe Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Addysg a Drama a Theatr (BA)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Addysg a Hanes (BA)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Addysg a Llenyddiaeth Saesneg (BA)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Addysg a Mathemateg (BA)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Addysg gyda Mathemateg (BSc)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Addysg a Sbaeneg (BA)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Addysg a Seicoleg (BSc)	Prifysgol Abertawe Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Abertawe Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Addysg a'r Gymraeg (BA)	Prifysgol Abertawe Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Caerdydd Prifysgol Cymru, Aberystwyth Prifysgol Cymru, Caerdydd
Addysg gyda Seicoleg ac Anghenion Addysgol Arbennig (BSc)	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Addysg Cenedlaethol (Cymru) (MA)	Prifysgol Bangor Prifysgol Cymru, Bangor
Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL) (MA)	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd Coleg Prifysgol Dewi Sant Coleg Prifysgol y Drindod

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

<i>Cymwysterau o ran Cymru</i>	<i>Corff dyfarnu</i>
	Prifysgol Abertawe Prifysgol Cymru, Abertawe
	Prifysgol Cymru, Casnewydd
	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
	Prifysgol De Cymru
	Prifysgol Fetropolitan Abertawe
	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
	Prifysgol Morgannwg
Astudiaethau Addysg (BA)	Coleg Prifysgol Dewi Sant
	Coleg Prifysgol y Drindod
	Prifysgol Abertawe
	Prifysgol Aberystwyth
	Prifysgol Caerdydd
	Prifysgol Cymru, Abertawe
	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
	Prifysgol Cymru, Caerdydd
	Prifysgol Cymru, Casnewydd
	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
	Prifysgol De Cymru
	Prifysgol Fetropolitan Abertawe
	Prifysgol Glyndŵr
	Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam
	Prifysgol Morgannwg
	Prifysgol Wrecsam
Astudiaethau Addysg (BSc)	Prifysgol Caerdydd

Cymwysterau o ran Cymru	Corff dyfarnu
Astudiaethau Addysg (MSc)	Prifysgol Cymru, Caerdydd Prifysgol Caerdydd Prifysgol Cymru, Caerdydd
Astudiaethau Addysg (Diploma Ôl-raddedig – PGDip)	Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Astudiaethau Addysg: Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (BA)	Coleg Prifysgol Dewi Sant Coleg Prifysgol y Drindod Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Astudiaethau Proffesiynol mewn Addysg (PgDip)	Y Brifysgol Agored
Cymdeithaseg ac Addysg (BSc)	Prifysgol Caerdydd Prifysgol Cymru, Caerdydd
Daearyddiaeth Ffisegol ac Addysg (BA)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Diploma mewn Addysg a Hyfforddiant	AIM Qualifications AoFA Qualifications Ascentis AQA City & Guilds of London Institute Gateway Qualifications iCan Qualifications Ltd NCFE National Open College Network Pearson Education Ltd Qualsafe Awards Skills and Education Group Awards SFJ Awards Training Qualifications UK

Cymwysterau o ran Cymru	Corff dyfarnu
	Vocational Training Charitable Trust
Diploma mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes	City & Guilds of London Institute Oxford, Cambridge and RSA Examinations
Dysgu ac Addysgu (Addysg Uwch) (PGCert)	Prifysgol Glyndŵr Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam Prifysgol Wrecsam
Hanes ac Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (BA)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Iaith Saesneg ac Addysgu Saesneg fel Iaith Dramor (BA)	Prifysgol Bangor Prifysgol Cymru, Bangor
Iaith Saesneg ac Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (BA)	Prifysgol Abertawe Prifysgol Cymru, Abertawe
Ieithoedd Modern ac Addysg (BA)	Prifysgol Abertawe Prifysgol Cymru, Abertawe
Llenyddiaeth Saesneg ac Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (BA)	Prifysgol Abertawe Prifysgol Cymru, Abertawe
Seicoleg ac Addysg (BSc)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Mathemateg ac Addysg (BSc)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Mathemateg gydag Addysg (BSc)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Tystysgrif Addysg	AQA Y Brifysgol Agored City & Guilds of London Institute Prifysgol Bangor Prifysgol Cymru, Bangor TEC Partnership
Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PGCE)	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd Coleg Prifysgol Dewi Sant Coleg Prifysgol y Drindod

Cymwysterau o ran Cymru

Corff dyfarnu

	Prifysgol Bangor
	Prifysgol Caerdydd
	Prifysgol Cymru, Bangor
	Prifysgol Cymru, Caerdydd
	Prifysgol Cymru, Casnewydd
	Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
	Prifysgol De Cymru
	Prifysgol Fetropolitan Abertawe
	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
	Prifysgol Morgannwg
Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg, mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCE)	Coleg Gwent
	Coleg Prifysgol Dewi Sant
	Coleg Prifysgol y Drindod
	Prifysgol Cymru, Casnewydd
	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
	Prifysgol De Cymru
	Prifysgol Morgannwg
Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg, mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PGCE)	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
	Coleg Prifysgol Dewi Sant
	Coleg Prifysgol y Drindod
	Prifysgol Caerdydd
	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
	Prifysgol Cymru, Caerdydd
	Prifysgol Cymru, Casnewydd
	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Cymwysterau o ran Cymru

Corff dyfarnu

	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
	Prifysgol De Cymru
	Prifysgol Fetropolitan Abertawe
	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
	Prifysgol Morgannwg
	Prifysgol Wrecsam
Tystysgrif Raddedig Broffesiynol mewn Addysg Uwch (PGCertHE)	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Tystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysg (PGCE) gyda QTS	Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
	Y Brifysgol Agored
	Coleg Prifysgol Dewi Sant
	Coleg Prifysgol y Drindod
	Prifysgol Abertawe
	Prifysgol Aberystwyth
	Prifysgol Bangor
	Prifysgol Caerdydd
	Prifysgol Cymru, Abertawe
	Prifysgol Cymru, Aberystwyth
	Prifysgol Cymru, Bangor
	Prifysgol Cymru, Caerdydd
	Prifysgol Cymru, Casnewydd
	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
	Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
	Prifysgol De Cymru
	Prifysgol Fetropolitan Abertawe
	Prifysgol Metropolitan Caerdydd
	Prifysgol Morgannwg

2. Tabl 2: Lloegr

Cymwysterau o ran Lloegr	Corff dyfarnu
Addysg – Arweinyddiaeth a Rheolaeth (MA)	Bath Spa University
Addysg (EdD Doethur mewn Addysg)	Birmingham City University
	Canterbury Christ Church University
	Edge Hill University
	Kingston University
	Liverpool John Moores University
	London South Bank University
	Oxford Brookes University
	Sheffield University
	Staffordshire University
	University of Bath
	University of Brighton
	University of Buckingham
	University of Chester
	University of Derby
	University of East London
	University of Gloucestershire
	University of Hertfordshire
	University of Huddersfield
	University of Nottingham
	University of Warwick
Addysg (MEd)	Northumbria University, Newcastle
	University of Leicester
Addysg (MPhil)	UCL (University College London)
	University of Cambridge
	Newcastle University

Cymwysterau o ran Lloegr	Corff dyfarnu
	University of Worcester
Addysg (Persbectifau Cymharol a Rhyngwladol) (MA)	University of Birmingham
Addysg (PhD)	Birmingham City University
	Goldsmiths, University of London
	Keele University
	University of Bath
	University of Birmingham
	University of Bristol
	University of Cambridge
	University of East London
	University of Exeter
	University of Gloucestershire
	University of Huddersfield
	University of Lincoln
	University of Manchester
	University of Nottingham
	University of Oxford
	University of Sussex
	University of Warwick
	University of York
Addysg a Blynyddoedd Cynnar (BA)	Sheffield Hallam University
Addysg a Choreeg (BA)	University of Central Lancashire
Addysg a Chrefydd (BA)	Edge Hill University
Addysg a Chyfiawnder Cymdeithasol (MA)	University of Bedfordshire
	Lancaster University
Addysg a Chyfiawnder Cymdeithasol (MSc)	Birkbeck University, London
	University of York
Addysg a Chymdeithaseg (BA)	Bishop Grosseteste University

Cymwysterau o ran Lloegr	Corff dyfarnu
	Edge Hill University
	Goldsmiths, University of London
	Keele University
	Oxford Brookes University
	University of Bedfordshire
	University of Birmingham
	University of Central Lancashire
	University of Gloucestershire
	University of Worcester
Addysg a Datblygiad (BA)	University of Worcester
Addysg a Datblygiad (MA)	University of East Anglia
Addysg a Datblygu Cynaliadwy Byd-eang (BA)	University of Warwick
Addysg a Datblygu Rhyngwladol (MA)	UCL (University College London)
Addysg a Datblygu Rhyngwladol (PhD)	
Addysg a Diwinyddiaeth, Athroniaeth a Moeseg (BA)	Bishop Grosseteste University
Addysg a Dysgu (BA)	University of Bolton
Addysg a Dysgu Gydol Oes (BA)	Oxford Brookes University
Addysg a Ffrangeg (BA)	University of Central Lancashire
Addysg a Hanes (BA)	Bishop Grosseteste University
	Keele University
	University of Central Lancashire
Addysg a Japaneeg (BA)	University of Central Lancashire
Addysg a Llenyddiaeth (BA)	Liverpool Hope University
Addysg a Llenyddiaeth Saesneg (BA)	Keele University
	University of Winchester
	University of Worcester
Addysg a Mandarin (BA)	De Montfort University
Addysg a Mathemateg (BSc)	Edge Hill University
Addysg a Phlentyndod Cynnar (BA)	University of Winchester

Cymwysterau o ran Lloegr	Corff dyfarnu
Addysg a Rwsieg (BA)	University of Central Lancashire
Addysg a Saesneg (BA)	Bishop Grosseteste University
	University of Bedfordshire
	University of Central Lancashire
	University of Derby University of Worcester
Addysg ac Anghenion Addysgol Arbennig (BA)	Liverpool Hope University
	Liverpool John Moores University
	University of Winchester
Addysg ac Anghenion Addysgol Arbennig, Anabledd a Chynhwysiant (SENDI) (BA)	Bishop Grosseteste University
Addysg ac Astudiaethau Crefyddol (BA)	Liverpool Hope University
Addysg ac Astudiaethau Ieuenctid (BA)	University of Roehampton
	University of Winchester
Addysg ac Athroniaeth (BA)	Keele University
Addysg ac Ymarfer Proffesiynol (BA)	Bath Spa University
	Bristol University
	University of the West of England
Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (MA)	University of Manchester
Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Ddemocrataidd a Hawliau Dynol (MA)	Leeds Beckett University
Addysg Barhaus (PhD)	University of Oxford
Addysg Bellach a Sgiliau (PGDip)	Edge Hill University
Addysg Ddigidol (MA)	University of Leeds
Addysg Fyd-eang ac Arweinyddiaeth (MA)	University of Bolton
Addysg gyda Seicoleg (BA)	DE Montfort University
	Nottingham Trent University
	University of Bath
	University of Bedfordshire
	University of Central Lancashire
	University of Durham

Cymwysterau o ran Lloegr	Corff dyfarnu
	University of Lincoln
	University of Southampton
	University of Worcester
Addysg gyda Seicoleg a Chwnsela (BA)	Sheffield Hallam University
Addysg gyda TESOL neu SEND (BA)	University of Derby
Addysg gyda TESOL (MA)	Keele University
	Bishop Grosseteste University
Addysg Gymdeithasol a Chynhwysol (MA)	University of Nottingham
Addysg Gynhwysol (MA)	Bath Spa University
	University of Bolton
	University of Gloucestershire
Addysg Oedolion a Dysgu Gydol Oes (PhD)	University of Warwick
Addysg Ryngwladol (MA)	Keele University
	University of Bedfordshire
	University of Exeter
	University of Sunderland
Addysg Ryngwladol (MSc)	University of Leicester
	University of Manchester
Addysg Ryngwladol a Datblygu (PhD)	University of Sussex
Addysg STEM (MA)	Kings College London, University of London
Addysg Uwch (PhD)	University of Kent
	Lancaster University
Addysg Uwch a Phroffesiynol (PGCert)	Staffordshire University
Addysg, Anghenion Arbennig, ac Anabled (BA)	University of Chichester
Addysg, Arweinyddiaeth a Diwylliant (BA)	University of Manchester
Addysg, Athroniaeth a Chrefydd (BA)	University of Central Lancashire
Addysg, Cymdeithas a Diwylliant (BA)	University College London
Addysg, Cymdeithas a Phlentyndod (BA)	Bath Spa University
Addysg, Cynhwysiant ac Anghenion Addysgol Arbennig (BA)	University of Gloucestershire
Addysg, Diwylliant a Phlentyndod (BA)	University of Sheffield

Cymwysterau o ran Lloegr	Corff dyfarnu
Addysg, Iechyd Meddwl a SEND (BA)	Leeds Trinity University
	York St John University
Addysg, Plentynodod a Diwylliant (BA)	University of East Anglia (UEA)
Addysg, Plentynodod ac Ieuencid (BA)	University of Wolverhampton
Addysg, Polisi a Chymdeithas	Kings College London, University of London
Addysg, Ymarfer a Chymdeithas (EdD)	UCL (University College London)
Addysg, Ymarfer a Chymdeithas (MPhil)	UCL (University College London)
Addysgu Iaith Saesneg (ELT) (MA)	De Montfort University
	Edge Hill University
	London Metropolitan University
	Queen Mary University of London
	University of Huddersfield
Addysgu Iaith Saesneg ac Ieithyddiaeth Gymhwysol (PhD)	University of Warwick
Addysgu Saesneg a TESOL (MSc)	University of Southampton
Addysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL) (MA)	Leeds Beckett University
Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (PhD)	University of York
Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL) (MA)	Aston University, Birmingham
	Bath Spa University
	Canterbury Christchurch University
	Edge Hill University
	King's College London
	Lancaster University
	Leeds Beckett University
	Nottingham Trent University
	Sheffield Hallam University
	Teesside University
	University College London

Cymwysterau o ran Lloegr	Corff dyfarnu
	University of Birmingham
	University of Central Lancaster
	University of Chester
	University of East Anglia
	University of Essex
	University of Hertfordshire
	University of Huddersfield
	University of Hull
	University of Kent
	University of London
	University of Leeds
	University of Leicester
	University of Liverpool
	University of Northampton
	University of Nottingham
	University of Reading
	University of Southampton
	University of Sunderland
	University of Westminster
	University of Warwick
	University of York
Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL)(MSc)	University of Bath
	University of Bristol
Addysgwr Ymarfer (PGCert)	University of Hull
Almaeneg ac Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (BA)	University of Central Lancashire
Astudiaethau Addysg (BA)	Bath Spa University
	Birmingham City University

Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

Cymwysterau o ran Lloegr

Corff dyfarnu

Bishop Grosseteste University

Brunel University London

Canterbury Christ Church University

De Montfort University

Edge Hill University

Goldsmiths University of London

Keele University

Lancaster University

Leeds Beckett University

Liverpool Hope University

London Metropolitan University

London South Bank University

Manchester Metropolitan University

Middlesex University

Newcastle University

Nottingham Trent University

Oxford Brookes University

Solent University (Southampton)

University of Bedfordshire

University of Birmingham

University of Brighton

University of Cambridge

University of Central Lancashire

University of Chester University of
Chichester

University of Cumbria

University of Durham

Cymwysterau o ran Lloegr

Corff dyfarnu

	University of East Anglia
	University of East London
